WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Diweddariad ar raglen waith perfformiad ar gyfer y Pwyllgor Archwilio 5 Chwefror 2013

# Cyngor Sir Ynys Môn

### Astudiaeth Gwella – Effeithiolrwydd Craffu

Mae'r prosiect yma'n mynd yn ei flaen ac yn ymwneud â'n tîm arolygu canolog. Bydd tîm cyfnewid dysgu gan gymheiriaid Ynys Môn ym ymweld â dau bwyllgor yng Nghonwy dros y misoedd nesaf, tra bydd tîm Gwynedd yn ymweld â dau bwyllgor yn Ynys Môn. Mae adborth wedi ei amserlennu rhwng mis Mawrth a mis Medi 2013, a bydd yn cael ei gefnogi gan adroddiad cenedlaethol.

### Astudiaeth Gwella – Paratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Mae'r gwaith maes ar gyfer y prosiect wedi'i gwblhau. Bydd adborth lleol ar gyfer Ynys Môn yn cael ei ddarparu ym mis Chwefror, fodd bynnag, byddem yn argymell fformat cyffredin ar gyfer adborth lleol. Cafwyd awgrym y dylir rhoi adborth i 'ymarferwyr' gyntaf, ac yna crynhoi â'r Prif Weithredwr a'r Dirprwy Brif Weithredwr mewn cyfarfod dilynol. Efallai fod y Pwyllgor Archwilio yn awyddus i glywed ein canfyddiadau yn y dyfodol. Dylai'r adborth cenedlaethol ledled Cymru fod wedi cael ei roi erbyn mis Mai 2013 ac mae Swyddfa Archwilio Cymru yn bwriadu cynnal nifer o ddigwyddiadau rhannu dysgu ar gyfer swyddogion ac aelodau'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2013.

### Profi ac Archwilio Cyhoeddiad Asesu Perfformiad y Cyngor

Mae'r gwaith wedi ei gwblhau ac yn rhan o Lythyr Asesu Gwelliant 2 o dan y Mesur. Mae hwn yn adolygiad o pa mor dda mae'r Cyngor wedi adrodd ar ei berfformiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r llythyr yma wedi cael ei anfon ac mae ar agenda'r Pwyllgor Archwilio.

### Archwilio Mecanweithiau Hunan-werthuso

Mae'r gwaith yma yn rhan o'r Adroddiad Gwella Blynyddol sydd wedi ei drefnu ar gyfer mis Chwefror 2013. Mae'n edrych ar ba mor gadarn mae'r Cyngor yn hunan-werthuso.

### Arolygu Budd-daliadau Tai a'r Treth Gyngor

Mae'r gwaith wedi ei gwblhau, ac mae adborth wedi cael ei roi yn uniongyrchol gan y tîm adolygu canolog. Bydd y canfyddiadau o'r adolygiad yn ffurfio rhan o'r Adroddiad Gwella Blynyddol; y bwriad yw i'w gwblhau erbyn diwedd mis Chwefror 2013.

### Cydweithio

Bydd yr astudiaeth yma yn cymryd lle tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol hon ac ar ddechrau 2013-14. Bydd yn canolbwyntio ar y graddau y mae awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gweithio â'i gilydd i atal cwympo ymhlith pobl hŷn. Mae atal cwympo yn debygol o leihau costau yn y dyfodol i wasanaethau cymdeithasol a'r GIG, ynghyd â gwella safon bywyd pobl hŷn.

## Gwaith sy'n benodol i Ynys Môn

### Digartrefedd

Mae'r adolygiad yn agos at gael ei gwblhau a bydd y canfyddiadau yn cael eu nodi yn hwyrach eleni yn Llythyr Asesu Gwelliant 1.